Cofnodion Cyngor dros Zoom nos Iau Hydref 29
Presennol: M.Chapman, L.Roberts, E.R.Noble, M.Skerrett, Marion L Hughes, C.Brewer, T.W.Jones - bu raid i Teleri adael y cyfarfod oherwydd problem cysylltiad gwefan.
Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion Cyngor 12.3.2020, cynnig L.Roberts, cefnogi E.Noble
Ymddiheuriadau: C.L.Price (problem gyda'r trydan yn dilyn storm)

Cadeirydd. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod Zoom cyntaf gan ddiolch i Connie am drefnu, hefyd gofynnodd i'r Aelodau fod mor gynnil a phosibl gyda'u cyfraniadau. Gall hyn olygu na fydd angen rhoi sylw i bob eitem ar gofnodion Mawrth 12 gan nad oes sylwadau arnynt.

Cyfarfodydd. Cytunwyd na ellir defnyddio'r Ganolfan na'r Pafiliwn ar hyn y bryd oherwydd y sefyllfa Cofid 19 felly bydd angen datblygu'r drefn Zoom, cynnig M.Skerrett, cefnogi C.Brewer a pawb yn cytuno. Dylid trefnu fod y Cyfarfod Blynyddol yn rhan o'r cyfarfod nesaf.

Heddlu. Dim i'w adrodd.

Yr A470. Deallir fod ystyriaeth yn cael ei roi i arwyddion ffordd 30/20 mya i gael eu gosod yn y pentref, croesawyd hyn. Y sefyllfa gyda'r gwaith trydan yn gwella ond heb ei orffen. Clerc a L.Roberts yn trafod gyda'r gweithwyr

Cyngor Sir. Cadarnhaodd L.Roberts fod K.Jones o'r Cyngor Sir wedi trefnu i sawl mater gael ei trin yn y misoedd diwethaf.

Llwybrau. Cysylltu a Ioan Davies am adroddiad cyffredinol am y sefylla yn yr ardal.

Yr Orsaf. Aelodau Dolwyddelan yn ei Blodau wedi cwbwlhau gwaith yn nhir yr Orsaf.

Siarter y Cyngor. Cyfarfodydd anodd eu trefnu ond dywedodd Liz Roberts fod mwy a mwy o ddefnydd ar gyfarfodydd Zoom erbyn hyn.

Pont Carreg Alltrem. Deallwyd fod gwaith ger y Bont wedi cymryd lle, Clerc i gysylltu â M.Grant.

Gwasanaeth Bysiau. Gyda'r problemau gyda'r gwasanaeth trenau mae'r sefyllfa wedi bod yn anodd ar adegau.

Pontydd yn yr Ardal. Anfon at B.Shiland CBSC am adroddiad.

Mainc Peter Owen.a'r Cae Bach. Clerc i holi am y sefyllfa.

Ymweliad Paul Sagar. Mae Liz Roberts yn dal mewn cysylltiad â P.Sagar o ran cael cymorth ganddo ar gyfer cael goleuadau Nadolig ar rai o'r polion trydan hyd yr A470.

Goleuo'r Goeden Nadolig. Deallwyd fod y pwyllgor wedi penderfynu cynnal math o drefniant 'rhithiol' ar gyfer y Nadolig eleni ac yn gofyn am gefnogaeth gan y Cyngor tuag at costau hysbysebu hyn yn y Pentref, cytunwyd ar hyn gyda M.Skerrett yn cynnig a M.Hughes yn cefnogi a pawb o blaid.

Gohebiaethau
Cydnabyddiaeth Aelodau - Trafod yn y cyfarfod nesaf.

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.

Llifogydd. Ceisio cael adroddiad gan K.Phillips, fe wnaiff L.Roberts gysylltu â hi.

Sul y Cofio. Cytunwyd i gyfarfod i osod Torch Poppy ar y Gofgolofn, Y Ficer Simon Freeman fydd yng ngofal y Gwasanaeth byr, eglurodd y Clerc y drefn gyda cyfyngoiadau Cofid.

Coeden Nadolig. Cadarnhaodd C.Brewer fod A.Farrar yn trefnu i gael coeden, ceisio cael ei goleuo ddechrau Rhagfyr, Ken a Selwyn i helpu gyda hyn. Rhaid sicrhau na fydd criw yno, ni fydd hyn yn cael ei hysbysebu.

Toiledau. Y gwaith yn mynd yn ei flaen er nad oedd y sefyllfa yn gwbwl foddhaol o ran cael gwybodaeth gan CBSC. M.Skerrett yn ei chael yn anodd cael cyfarfod â S.Teale. Trafodwyd materion fel cael Cyfreithiwr a glanhawr. Clerc i gysylltu â Chynghorau eraill sydd wedi bod yn yr un sefyllfa o ran cymryd gofal o doiledau lleol. Roedd pawb yn gytun ar lliw y paent.

Y Fynwent/Gofgolofn. Cafwyd cadarnhad gan C.Humphreys mai un o'r gweithwyr oedd wedi camddeall y sefyllfa o ran torri gwair yn y Gofgolofn, ni fydd yn digwydd eto. L.Roberts mewn cysylltiad â Haf Jones CBSC o ran cael grant ariannol ar gyfer gwaith yn y Fynwent a'r Gofgolofn. Angen trefnu i gyfarfod yn y Gofgolofn a'r Fynwent i drafod gwaith sydd ei angen yn y ddau safle.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu cynnig L.Roberts cefnogi M.L.Hughes.

Scottish Power. Cafwyd gwybodaeth gan L.Roberts yn dilyn ei thrafodaethau gyda'r gweithwyr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Clerc i alw cyfarfod Zoom arall yn niwedd Tachwedd dechrau Rhagfyr.